

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

Y Cynghorydd D Patel

Ward:Cwm Ogwr

Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Cwm Ogwr ar 13 Tachwedd 2015. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 200 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaeth

- Rwy'n cynnal cymorthfeydd cyngor cyffredinol i'r holl drigolion ddod iddynt, yn ogystal â chymorthfeydd ar y cyd gyda'r Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol.
- Yn ogystal â hyn rwy'n sicrhau y gall pobl gysylltu â mwy drwy bob math o gyfathrebu gan gynnwys ymweliadau â thai, ar ffôn symudol ac ar gyfryngau cymdeithasol.
- Rwy'n mynd i gymaint â phosibl o weithgareddau a gynhelir yn fy nghymuned a'u hyrwyddo a'u cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys nosweithiau cyflwyno, sesiynau i godi arian, diwrnodau hwyl, mentrau dechrau busnes, yr helfa wyau Pasg flynyddol gydag Eglwys Dewi Sant ac ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth yng Nghanolfan Bywyd Cwm Ogwr.
- Rwyf wedi gweithio ar faterion allweddol fel goleuadau stryd, glanhau strydoedd, gwastraff ac ailgylchu, tipio anghyfreithlon, tyllau yn y ffordd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y tir i'r gogledd o'r ystad ddiwydiannol.
- Rwy'n mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd Cyngor Cymuned Cwm Ogwr, cyfarfodydd PACT ac rwy'n llywodraethwr a benodir gan yr awdurdod lleol yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr a Choleg Cymunedol y Dderwen
- Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â chydlynnydd y gymuned leol a'r PCSOs i

groesgyfeirio materion.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Drwy'r Gronfa Gweithredu yn y Gymuned i gynghorwyr, y Gist Gymunedol a Menter Gymunedol y Dderwen, rwyf wedi helpu i sicrhau cymorth ariannol i'r grwpiau canlynol:

- Clwb Paffio Amatur Nantymoel (ar gyfer offer ac estyniad ar yr ystafell);
- Clwb Bechgyn a Merched Wyndham (ar gyfer gweithgareddau clwb, pêl-droed iau, pêl-droed pups a mesurau i atal goryrru);
- Sied Dynion Cwm Ogwr (fel grant cychwyn);
- Priide Cwm Ogwr (ar gyfer hyfforddi gwirfoddolwyr, cefnogi mentrau tirweddu penodol a chyflawni cynllun sgip ar gyfer y gymuned);
- Côr Menywod Cwm Ogwr (ar gyfer piano cludadwy);
- Valley Ravens (i hyfforddi Hyfforddwyr).

Gweithgareddau/Materion Eraill

Yn y flwyddyn i ddod hoffwn weithio'n agosach gydag Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo sy'n awyddus i fod yn weithredol yn fy ward, gwneud rhagor o waith gyda gwirfoddolwyr Priide Cwm Ogwr, yn ogystal â pharhau i weithio gyda phwyllgor llywio'r cae 3G er mwyn helpu i sicrhau cae ar gyfer y trigolion yn fy ward.

Y Cynghorydd D Patel:

Dyddiad: 05.05.18